NEWYDDION

GWANWYN 2006

Cynghrair Cymru Gyfan ar Gyfer Ymchwil a Datblygiad mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
All Wales Alliance for Research and Development in Health and Social Care

Croeso i gylchlythyr cyntaf AWARD, sef rhwydwaith amlddisgyblaeth o academyddion sy'n gweithio i wella darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol drwy wneud gwaith ymchwil o safon.

AWARD yw Cynghrair Cymru Gyfan ar gyfer Ymchwil a Datblygiad mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r rhwydwaith yn rhychwantu tair prifysgol - Bangor, Caerdydd ac Abertawe - a chaiff ei noddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy Swyddfa Ymchwil a Datblygu Cymru (WORD) ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Nod AWARD yw hybu proffil ymchwil a datblygu mewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd yn denu arian ymchwil newydd i'r wlad ar gyfer gwneud gwaith ymchwil a lledaenu canfyddiadau. Bydd y rhain yn darparu tystiolaeth a dysgu, yn cyfrannu at ddatblygu polisi ac yn dylanwadu ar arfer drwy gronni gwaith ymchwil o safon - a hynny'n waith sy'n cael ei wneud eisoes a gwaith a wneir yn y dyfodol.

Mae gan aelodau AWARD arbenigedd eang a chydnabyddedig mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol gan gynnwys ymchwil meintiol ac ansoddol, hap-dreialon wedi'u rheoli, gwerthuso, economeg iechyd ac adolygiadau llenyddiaeth. Mae gan rai gefndir mewn gofal cymdeithasol, gwaith clinigol a chymunedol, gan roi arbenigedd i'r tîm sydd â'i wreiddiau ym maes darparu gwasanaethau ymarferol.

Mae AWARD yn gweithio yn y sectorau statudol, gwirfoddol ac academaidd ac ar draws y sectorau hynny: gydag gweithwyr iechyd a chymdeithasol, rheolwyr a llunwyr polisi yn y GIG a llywodraeth leol; gyda grwpiau defnyddwyr a grwpiau gofal sy'n cael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol; gyda chydweithwyr ym mhrifysgolion Cymru, y DU a phrifysgolion rhyngwladol; a chyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Gall AWARD roi cymorth ymarferol ac academaidd i alluogi unigolion a sefydliadau i ymestyn eu gwybodaeth arbenigol a'u harbenigedd i waith ymchwil, esbonia Cyfarwyddwr Rhanbarthol AWARD Dr Helen Snooks.

"Rydym yn cynnig y cyfle i gydweithio, i ganfod nawdd a gwneud cais amdano ac i weithio ar y cyd ar astudiaethau ymchwil. Dibynnwn ar wybodaeth broffesiynol partneriaid a gallwn gyfrannu ein sgiliau i sicrhau y gwneir gwaith ymchwil o safon."

"Mae nawdd ar gyfer ymchwil yn arena gystadleuol iawn. Drwy weithio gydag arbenigwyr wrth ymarfer, llunio polisïau a gwneud ymchwil, y gobaith yw y gall AWARD roi hwb i safon gwaith ymchwil yng Nghymru a chreu mwy o gyfleoedd yn y maes."

Sut y mae AWARD yn gweithio

I gyrraedd ei nod o wneud gwaith ymchwil o safon a hyrwyddo ymchwil o'r fath, mae AWARD yn gweithio mewn pum prif ffordd:

- Datblygu ac ymgymryd ag astudiaethau cydweithredol, lle bydd academyddion a phartneriaid yn dod â syniadau a sgiliau ymchwil at ei gilydd i ddatblygu prosiectau a fydd yn arwain at ganfyddiadau o safon, gyda gwersi ar gyfer meysydd eraill
- Darparu arbenigedd methodolegol i ddatblygu cynigion ymchwil o safon y gellir eu hariannu
- Darparu hyfforddiant a dargedir ar lefel ôl-raddedig
- Gweithio'n uniongyrchol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy wneud gwaith ymchwil i lywio datblygu polisi
- Gwneud ymchwil a gomisiynir am ffi

Cynnwys

Tudalen 1: Croeso i AWARD - edrychwn ar nodau AWARD a'r cyfleoedd y mae'r rhain yn eu creu

Tudalen 2: Proffiliwn rai prosiectau ymchwil a phartneriaid y mae AWARD yn gweithio gyda hwy

Tudalen 3: Edrychwn ar y ffordd y mae AWARD yn gweithio i gefnogi a hyrwyddo ymchwil

Tudalen 4: Sut y gallwch chi gysylltu ag AWARD

Prifysgol Cymru Bangor
Prifysgol Cardiff
Prifysgol Abertawe

Ffôn: 0845 601 8545 | E-bost: contact@awardresearch.org.uk | Post: FREEPOST AWARD

Datblygu ac ymgymryd ag astudiaethau ymchwil cydweithredol

Yn yr adran hon proffiliwn ychydig yn unig o'r ystod o brosiectau ymchwil y mae AWARD yn ymwneud â hwy a'r grwpiau partner y mae AWARD yn gweithio gyda hwy: cymunedau, defnyddwyr gwasanaeth, ymarferwyr a rheolwyr.

Effaith integreiddio gwasanaethau iechyd meddwl

Cafodd yr astudiaeth hon grant o £120,000 i werthuso newidiadau mewn cyflwyno gwasanaethau a'r newidiadau i'r diwylliant o ganlyniad i integreiddio gwasanaethau iechyd meddwl oedolion yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

Datblygwyd y cynnig ymchwil gan AWARD ar ôl cais gan Bartneriaeth Iechyd Meddwl a Gofal Cymdeithasol Oedolion Conwy a Dinbych. Cytunodd y pum sefydliad i weithio mewn partneriaeth gyda'r sector gwirfoddol, defnyddwyr a gofalwyr mewn prosiect a gychwynnwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog cydweithio agosach rhwng maes gofal iechyd a llywodraeth leol. Roeddent yn mynnu tystiolaeth o lwyddiant y newid a gwybodaeth i lywio datblygiadau'r dyfodol.

Rôl AWARD oedd datblygu'r cais gwreiddiol o brosiect gwerthuso lleol i astudiaeth ymchwil gan ddefnyddio methodoleg drwyadl i ddarparu canfyddiadau ymchwil y gellir eu cyffredinoli ac adeiladu ar y sail dystiolaeth yn y maes hwn. Cydlynodd AWARD gais llwyddiannus i'r Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth a chyflogwyd partner ymchwil am dair blynedd i werthuso'r prosiect.

Cyswllt prosiect: Gregg Slegg (G.Slegg@bangor.ac.uk)

Newid ymddygiad cleifion

Cafodd yr astudiaeth hon grant o £400,000 gan yr Adran Iechyd i werthuso ymyriadau gyda'r nod o newid ymddygiad cleifion sy'n gysylltiedig ag iechyd. Arweinir yr astudiaeth gan aelod o AWARD sef yr Athro Chris Butler.

Mae gan Feddygaeth Teulu botensial sylweddol ar gyfer gwaith atal sylfaenol drwy addasu ymddygiad cleifion sy'n peri risgiau lluosog, ond nid oes digon o ddatblygu wedi bod ar yr ymyriadau sy'n ymarferol, yn effeithiol ac yn dderbyniol ac nid oes digon o ymarferwyr yn eu defnyddio.

Drwy broses o ddatblygu damcaniaethol, modelu a threialon archwiliadol sy'n rhychwantu 15 mlynedd, mae'r Adran Meddygaeth Teulu yng Nghaerdydd wedi datblygu ymyriad sy'n adnabyddus yn rhyngwladol o'r enw Cwnsela Newid Ymddygiad (CNY) sy'n seiliedig ar Gyfweliadau Cymell.

Yn yr astudiaeth hon, rhennir practisiau meddygon teulu yn grwpiau ymyrryd ac yn grwpiau rheoli.
Caiff hanner y practisiau hyfforddiant CNY. Caiff cleifion eu hasesu ar gyfer y pedwar ymddygiad iechyd.Y prif ganlyniad fydd cyfran y cleifion sy'n gwneud newidiadau cadarnhaol mewn un neu fwy o'r pedwar ymddygiad (ysmygu, yfed peryglus, bwyta'n afiach a diffyg ymarfer corff) ar ôl tri mis. Cymharir canlyniadau'r cleifion hynny a welodd y clinigwyr a hyfforddwyd mewn CNY â chanlyniadau cleifion a welodd y clinigwyr na chawsant eu hyfforddi mewn CNY.

Cyswllt prosiect: Chris Butler (Butlercc@cardiff.ac.uk)

Llywio gwaith y gwasanaeth ambiwlans

Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) wedi derbyn canlyniadau gwaith ymchwil a wnaed gan aelodau AWARD. Roedd dwy astudiaeth, un a wnaethpwyd drwy AWARD a'r llall a ariannwyd gan WORD, yn ymwneud â phroffil pobl hyn sy'n cwympo a sut i newid arferion sy'n gysylltiedig â pheidio-â-chludo a dogfennaeth glinigol. O ganlyniad i'r ymchwil, mae WAST wedi adolygu polisi sy'n ymwneud â pheidio-â-chludo.

Cyswllt prosiect: Alison Porter (a.m.porter@swansea.ac.uk)

Anghydraddoldebau Iechyd

Mae effaith asesu perfformiad ar "faterion drwg" anghydraddoldebau iechyd yn cael ei gwerthuso yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r prosiect yn archwilio sut y mae gwahanol ymagweddau cenedlaethol at asesu perfformiad yn 'siapio' anghydraddoldebau iechyd gan randdeiliaid lleol a sut y mae'r 'siapio' hwn yn amrywio yn ôl safle'r rhanddeiliaid yn y systemau polisi lleol. Mae aelod AWARD yr Athro Gareth Williams o Brifysgol Caerdydd yn gweithio gydag academyddion o Loegr a'r Alban ar yr astudiaeth hon a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

Cyswllt prosiect: Gareth Wiliams (WilliamsGH1@cardiff.ac.uk)

Effeithiolrwydd cydweithio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol

Yn rhan o raglen Adolygiad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, comisiynwyd AWARD gan yr is-grwp Ailgynllunio Gweithlu i lunio trosolwg o'r llenyddiaeth am faterion sy'n ymwneud ag ailgynllunio'r gweithlu rhwng darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd Cam 1 yn cynnwys astudiaeth rychwantu a oedd yn nodi ac yn crynhoi ansawdd, math a ffocws cyfeiriadau. Yn dilyn adborth gan gydweithwyr ym maes polisi yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, roedd Cam 2 yn cynnwys trosolwg o'r llenyddiaeth gyhoeddedig. Nod hyn oedd disgrifio a gwerthuso'r dystiolaeth am effeithiolrwydd gwasanaethau a gyflwynir ar y cyd gan ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU, er mwyn: nodi materion a oedd yn ymwneud â gweithlu penodol; amlygu meysydd o arfer da; a nodi cwestiynau ar gyfer ymchwil pellach. Mae'r adroddiad hwn ar fin cael ei gwblhau a bydd ar gael ar y wefan cyn bo hir.

Cyswllt prosiect: Julie Peconi (j.peconi@swansea.ac.uk)

Gweithio yn y gymuned ymchwil

Yn yr adran hon proffiliwn rôl a gweithgarwch AWARD i gefnogi a hyrwyddo ymchwil o safon yng Nghymru

Canllaw newydd i helpu i ddatblygu a gwerthuso polisïau iechyd

Mae AWARD yn datblygu ac yn treialu canllaw hawdd ei ddefnyddio i lywio datblygu a gwerthuso polisïau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r canllaw'n canolbwyntio ar hapbrofion clwstwr i werthuso polisïau iechyd a gofal cymdeithasol drwy'r maes. Mae'n adeiladu ar fframwaith a gyhoeddwyd gan y Cyngor Ymchwil Meddygol ar gyfer datblygu a gwerthuso ymyriadau cymhleth. Mae'r canllaw'n nodi pum cam y Cyngor; adolygu damcaniaeth berthnasol, modelu, treialu a gwerthuso'r ymyriad, a'i roi ar waith yn y tymor hir.

Teitl y canllaw yw 'Polisïau ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gaiff Ddylanwad drwy'r Maes: Canllaw ar gyfer datblygu a gwerthuso' a chaiff ei grynhoi i'r acronym PHAIME 2.

Cynhaliodd tîm PHAIME gyfres o weithdai ym mis Rhagfyr i hyrwyddo'r canllaw ac i hyrwyddo datblygu a gwerthuso polisïau iechyd a gofal cymdeithasol yn drwyadl.

Mae athroniaeth datblygu gofalus a gwerthuso trwyadl hefyd yn berthnasol i ymyriadau iechyd cyhoeddus. Mae tîm PHAIME yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, gan gynllunio a chychwyn prosiectau i ddatblygu a gwerthuso:

- canllawiau gofal sylfaenol cenedlaethol ar gyfer gofalu am anafiadau nodwyddau
- canllawiau practis yn Abertawe ar gyfer canfod a rheoli cyflwr cyn-diabetes
- moderneiddio tai yn Wrecsam i wella iechyd plant ag asthma

Mae mwy o wybodaeth ar gael gan Emma Bedson (e.bedson@bangor.ac.uk

Rhwydweithiau Thematig

Cafodd naw rhwydwaith ymchwil thematig a thri gwasanaeth cefnogi seilwaith eu comisiynu'n ddiweddar gan Swyddfa Ymchwil a Datblygu Cymru. Bydd AWARD yn gweithio gyda'r rhwydweithiau hyn i hybu gwaith ymchwil sy'n seiliedig ar iechyd a gofal cymdeithasol gan alluogi timau ymchwil i gychwyn a chyfranogi mewn mentrau ymchwil mawr o safon.

Rhwydweithiau Ymchwil Thematig

- Plant a phobl ifanc
- Dementia/anhwylderau niwro-ddirywiol
- Diabetes ac endocrinoleg
- Gofal brys a gofal heb ei gynllunio
- Epilepsi
- Anableddau Dysgu
- Iechyd meddwl
- Pobl hyn a heneiddio
- Gwella iechyd cyhoeddus

Gwasanaethau cefnogi seilwaith

- Cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Economeg iechyd
- Llywodraethu a rheoli ymchwil

Bydd y rhwydweithiau a ariannwyd yn ddiweddar hefyd yn creu cysylltiadau cryf â Chanolfan Cydgysylltu Ymchwil Clinigol Cymru (CRCC Cymru) a sefydlwyd yn ddiweddar. Bydd AWARD yn darparu arbenigedd a chyngor methodolegol i'r rhwydweithiau thematig, ochr yn ochr â chydweithwyr yn y gwasanaethau cefnogi seilwaith. Bydd AWARD hefyd yn adeiladu ar yr astudiaethau rhychwantu a wneir ar draws ystod eang o bynciau ac yn datblygu cysylltiadau â'r rhwydweithiau hynny nad oeddent yn llwyddiannus yn y cylch ariannu hwn. Mae AWARD yn gobeithio elwa ar y sylfaen a osodwyd a datblygu syniadau ymchwil yn y meysydd hyn.

Cafodd aelodau AWARD Helen Snooks, Julie Peconi (yn y llun) a Sarah Gaze eu hariannu drwy gyfrwng incwm prosiectau i fynychu'r Gynhadledd Ryngwladol Asesu Technoleg Iechyd yn Rhufain ym mis Mehefin 2005 i gyflwyno ar lafar ac ar ffurf posteri ganfyddiadau gwerthusiad Galw Iechyd Cymru a Phrawf OMEGA a fu'n gwerthuso rheoli galwadau 999 llai pwysig drwy roi cyngor dros y ffôn.

Caiff gwaith gan aelod AWARD Dr Myfanwy Davies ei gynnwys mewn llyfr newydd a gyhoeddir yn fuan. Mae'r bennod dan y teitl 'Notions of Motherhood and maternity needs of Arab Muslim women' yn Transcultural Care: a guide for professionals a olygwyd gan I Papadopoulos ac a gyhoeddwyd gan Elsevier.

Mae aelodau AWARD Diane Seddon a Catherine Robinson yn ystyried y mentrau polisi diweddar a'r heriau allweddol sy'n wynebu gofalwyr bob dydd, yn 'Carers and Caregiving in the Context of Intermediate and Continuing Care'. Mae'r bennod hon, sy'n cyfeirio at lenyddiaeth polisi, arfer ac ymchwil sydd eisoes yn bodoli, yn Intermediate and Continuing Care: Policy and Practice a olygwyd gan B Roe ac R Beech 2005 ac a gyhoeddwyd gan Blackwells, Rhydychen.

Cefnogodd staff AWARD brosiectau a ariennir gan Raglen Ymchwil Camau Iechyd Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac maen nhw'n cyfrannu at lyfr sydd ar y gweill (Policy Press 2007) am faterion anghydraddoldebau iechyd a chyfranogi cymunedol. Mae aelodau SHARP Sir Benfro yn y llun uchod.

Lansiwyd AWARD yng nghynhadledd strategaeth ymchwil WORD. Yn y llun y mae Dr Helen Snooks, Cyfarwyddwr Rhanbarthol, yn y digwyddiad (rhes gefn, yr ail o'r chwith). Ymhlith y siaradwyr eraill y mae: Dr Brian Gibbons AC, Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (rhes flaen, ail o'r chwith) a'r Athro John Williams, Cyfarwyddwr WORD (rhes gefn, chwith).

SUT Y GALLWCH CHI WEITHIO GYDAG AWARD

Mae AWARD yn awyddus i roi'r cyfle gorau i syniadau ymchwil da, meddai Cyfarwyddwr Rhanbarthol AWARD Dr Catherine Robinson, er mwyn i ymchwil yng Nghymru ddwyn buddiannau amlwg i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

"Mae blaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd a phrinder adnoddau ym mhob sefydliad yn golygu ei bod yn bwysig nodi a datblygu syniadau o safon. Am y rheswm hwn, mae AWARD yn gofalu ei fod yn canolbwyntio ar yr hyn y gellir ei gyflawni ac yn darparu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd ar gael."

Mae AWARD yn cyhoeddi canfyddiadau ymchwil mewn cylchgronau a adolygir gan gymheiriaid sy'n ddylanwadol ac yn cael eu parchu gan academyddion ac ymarferwyr yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Mae AWARD yn gweithio hefyd i hybu ymwybyddiaeth am ymchwil a gweithwyr iechyd a chymdeithasol ymhlith cynulleidfa ehangach.

Er mwyn gweithio gyda chi bydd angen i AWARD weld bod eich astudiaeth chi:

- Yn mynd i'r afael â blaenoriaethau iechyd a gofal cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Wedi'i gymeradwyo gan eich asiantaeth iechyd/gofal cymdeithasol, drwy drefniadau llywodraethu ymchwil neu drefniadau mewnol eraill
- Yn mynd i gynnwys ystod o bobl o'r disgyblaethau, proffesiynau a'r sectorau sy'n berthnasol i'r maes pwnc
- Yn mynd i adeiladu ar y sail dystiolaeth
- Yn debygol o ddenu arian ymchwil
- Yn mynd i gael ei chyhoeddi yn y pen draw

Yn ddiweddar bu staff a phartneriaid AWARD yn disgrifio prosiectau ac yn cydweithio mewn cyflwyniad i staff yr Ysgol Feddygaeth ym Mhrifysgol Cymru Abertawe.

Mae aelodau AWARD yn hapus i gyfarfod â sefydliadau ac unigolion i drafod syniadau ymchwil.

Os hoffai eich sefydliad chi gael cyflwyniad gan AWARD, cysylltwch â ni.

Gall AWARD roi cyngor am y canlynol:

- Gwneud cais am arian ymchwil
- Diffinio eich cwestiwn ymchwil
- Cynllunio astudiaeth a cheisiadau moeseg
- Rheoli, dadansoddi a dehongli data prosiectau ymchwil
- Paratoi adroddiadau, crynodebau a phapurau i'w cyhoeddi
- Cyflwyno canfyddiadau
- Gwybodaeth arbenigol am ddulliau ymchwil a sut i ennill arian ymchwil
- Nodi safleoedd ar gyfer recriwtio cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaethau

Gall AWARD fod yn:

- Bartner wrth ddatblygu a gwneud gwaith ymchwil, gan gyfrannu gwybodaeth ac arbenigedd proffesiynol at dîm ymchwil.

CYNADLEDDAU

Cynhadledd Abertawe ar 21 Mehefin

Mae AWARD yn cynnal cyfres o gynadleddau yn 2006. Thema gyffredin y cynadleddau fydd **Adeiladu Ymchwil a Datblygu mewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: gwella iechyd, gwella gofal, gwella gwybodaeth**. Cynhelir y gynhadledd yn nhri rhanbarth AWARD a bydd yn gyfle i rannu gwybodaeth ac arfer da a hyrwyddo canfyddiadau ymchwil newydd drwy arddangos posteri a chyflwyniadau llafar. Mae'r gyfres o gynadleddau'n dechrau yn Abertawe ar 21 Mehefin a bydd digwyddiadau yng Nghaerdydd ac yng Ngogledd Cymru'n dilyn yn yr hydref a'r gaeaf. Cewch wahoddiadau i gyflwyno eich crynodebau yn y dyfodol agos. Cewch wybod mwy ar wefan AWARD, drwy anfon e-bost at sarah.macdonald@swansea.ac.uk neu ffonio 01792 602346.

SUT Y GALLWCH CHI GYSYLLTU AG AWARD

Mae gennym bob amser ddiddordeb mewn clywed gan bobl sy'n awyddus i ddatblygu prosiectau ymchwil cydweithredol newydd. Gallwch gysylltu â ni mewn tair ffordd:

Gwefan: www.awardresearch.org.uk

Ffôn: 0845 601 8545

Post: RHADBOST AWARD

Gobeithio bod y cylchlythyr hwn yn ddiddorol i chi. Byddem yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer eitemau yn rhifynnau'r dyfodol.

Cofiwch ddangos y cylchlythyr hwn i gydweithwyr y gallai fod o ddiddordeb iddynt. Am gopïau ychwanegol neu i'ch ychwanegu at y rhestr lythyru, cysylltwch â Sarah Macdonald (ffôn 01792 602346 neu e-bost sarah.macdonald@swansea.ac.uk).

Os nad ydych eisiau cael y cylchlythyr hwn rhagor, gofynnwch i ni ddiwygio ein rhestr lythyru a thynnu eich enw oddi arni.